

Hynek Janoušek: Yr Wcráin yn fy Myd Bach; golwg ar ddarlun o'r argyfwng yn yr Wcráin yng ngwleidyddiaeth fewnol a chyfryngau'r Weriniaeth Tsiec

Mae'r Weriniaeth Tsiec yn wlad yn y canol mewn sawl ystyr. Nid yn unig ein bod ni yng nghanol Ewrop yn bur ddaearyddol. Dyn ni hefyd yng nghanol tiriogaeth yr Undeb Ewropeaidd a chynghreiriaid Ewropeaidd NATO. Ffrwyth trawsnewidiad ar ôl cwmp yr Undeb Sofietaidd yw ein haelodaeth yn y ddau gorff gwleidyddol yma, fel y mae hi yn achos ein cymdogion agosaf ni, Gweriniaeth Slofacia. Fel cewch chi weld, mi fydd ymateb cyfryngau Tsiec i ddigwyddiadau byd-eang wastad yn cael ei gyflyru gan ein rôl ni yn yr Undeb Ewropeaidd a NATO. Ac ar ben hynny, bydd ymateb cyfryngau penodol i newyddion y byd wastad yn adlewyrchu ymarweddiad ideolegol neilltuol tuag at yr Undeb a NATO. Dw i wedi dewis pwysleisio hyn ar y dechrau oherwydd bod yr Undeb a NATO yn ddolennau cyswllt gwleidyddol amlwg rhyngon ni a'r Deyrnas Unedig. Ac mae ein haelodaeth ni yn y sefydliadau rhyngwladol hyn yn realiti tra phwysig yng ngwleidyddiaeth fewnol y Weriniaeth hefyd. O ystyried ein safle daearyddol a gwleidyddol, fyddwch chi ddim yn rhyfeddu taw sefyllfa yn yr Wcráin yw'r brif thema ryngwladol sy'n cael ei gwyntyllu yn y cyfryngau Tsiec ers rhai misoedd bellach. Gan fod y ffordd mae ein cyfryngau'n trin yr argyfwng yn yr Wcráin yn dadlennu llawer am ein newyddiaduriaeth ac am ein gwleidyddiaeth fewnol, dw i'n mynd i ganolbwyntio ar y sylwebaeth Tsiec sy'n ymhél â'r mater hwn dros y mis a hanner diwethaf.

Heblaw am gysylltiadau hanesyddol agos, mae 'na fwy na 120,000 o Wcrainiaid yn byw yn y Weriniaeth Tsiec ar hyn o bryd. Mi ddangosodd canlyniadau'r etholiadau i senedd yr Wcráin ar ddiwedd y flwyddyn 2012, fod y rhan fwyaf o'r Wcrainiaid sy'n preswyllo yn y Weriniaeth Tsiec wedi pleidleisio dros y mudiad cenedlaetholgar, Svoboda a'r pleidiau a oedd yn flaengar yn chwyldro'r Majdan wedyn. Tra bo'r trigolion Wcrainiaid y Weriniaeth a dinasyddion y rhan orllewinol o'r Wcráin ei hun yn hynod o bleidiol i'r Undeb Ewropeaidd a NATO, dyn ni'n Tsieciaid yn llawer mwy amwys yn hyn o beth. Wrth i'r Unol Daleithiau ddatgan eu bod nhw'n mynd i gynyddu eu presenoldeb milwrol yn Ewrop mewn ymateb i'r argyfwng yn yr Wcráin, cafodd y Weriniaeth Tsiec ei beirniadu am beidio â gwario digon o arian ar amddiffyn. Yn gyffredinol, mae polisi llywodraeth y glymblaid bresennol dan arweiniad y Prif Weinidog Sosialaidd Bohuslav Sobotka yn hynod o ochelgar. Ar wahân i lais unig y Gweinidog Amddiffyn, dyw'r llywodraeth ddim am aberthu cyllid prin i hybu ein hadnoddau milwrol ac maen nhw wedi siarad yn weddol ddiamwys yn erbyn gosod rhagor o sancsiynau ar Rwsia, o leiaf tan yn ddiweddar. Roedd hyd yn oed y Gweinidog Amddiffyn, Martin Stropnický yn amharod i gymeradwyo penderfyniad yr Unol Daleithiau i

fwstro eu grym milwrol yn Ewrop. Dwedodd y Gweinidog nad yw ein gwlad yn hoff o groesawu lluoedd arfog estron o achos ein hanes cythryblus yn yr ugeinfed ganrif. Mae hynny'n ddigon cywir hyd yn oed yn ein hanes mwyaf diweddar ni. Digon yw cofio am y gwrthwynebiad ysgubol a dangosodd mwyafrif y Tsieciaid i adeiladu gorsaf radar ym Mohemia fel rhan o system amddiffyn taflegryn y NATO rai blynyddoedd yn ôl. Serch hynny, ffyrnig oedd adwaith rhai gwleidyddion a sylwebyddion yn erbyn geiriau cymedrol y Gweinidog Amddiffyn. Mi gafodd ei feirniadu'n hallt, gyda rhai yn dadlau ei fod e'n bradychu ein cynghreiriaid.

Wrth i'r Wcrainiaid ethol eu harlywydd newydd a'u gwlad yn cael ei rhwygo gan ryfel cartref, tynnodd nifer o newyddiadurwyr sylw at y rhwyg y mae'r argyfwng yn ei greu yn y cyhoedd Tsiec. Hanner blwyddyn ar ôl dechrau protestiadau'r Majdan, mae prif gyfryngau Tsiec wedi sefydlu un dehongliad safonol o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd yn yr Wcráin ac mae'r dehongliad hwn wedi troi'r unig un derbyniadwy ym mhrif ffrwd y newyddion. Mae'n bosib' ei grynhoi fel a ganlyn:

Mae'r Majdan yn cael ei ystyried yn chwyldro a dyfodd o blith gwerin bobol yr Wrcáin heb ddylanwad estron ac mae'n cael ei gymharu â'n Chwyldro Felfed ni yn 1989 pan gafodd y system gomiwnyddol ei dymchwel yn Tsiecoslofacia. Ymhellach, bychan oedd rôl cenedlaetholwyr eithafol yn y gwrthryfel ac o'r herwydd bychan yw'r sylw y mae ein prif gyfryngau ni yn ei dalu i rai elfennau ffasgaidd amlwg yn y mudiad. Y consensws cyffredinol yw mai ar Vladimir Putin y mae'r bai am gyflwr truenus y wlad a gwelir polisïau Rwsia tuag at yr Wcráin fel bygythiad uniongyrchol i ddiogelwch Ewrop gyfan. Tra bo Kiev yn ceisio amddiffyn sofraniaeth y wlad, mae Rwsiaid yn cael eu darlunio fel ymosodwyr rheibus a gipiodd y Crimea ac y sydd â'u llygaid ysglyfaethus ar yr Wcráin a gwledydd eraill Dwyrain Ewrop. Yn syml, mae'r Rwsiaid yn gwbl gyfrifol am wrthryfel yn nwyrain yr Wcráin ac mae'r milwyr sy'n brwydro yn erbyn awdurdod Kiev yn ymwahanwyr, yn hurfilwyr Rwsia neu hyd yn oed yn derfysgwyr. Dyma ddehongliad sy'n cael ei ffafrio gan ein prif gyfryngau, gan gynnwys ČT, ein teledu cyhoeddus, a'r papurau newydd dyddiol mwyaf; yn eu plith, mae *Lidové noviny* a *Mladá Fronta* yn bapurau asgell dde gymedrol, ac mae *Právo* ar yr adain chwith gymedrol. Ac eithrio papurau tabloid cyffrogarol fel *Blesk* neu *Haló noviny*, sy'n gysylltiedig â'r Blaid Gomiwnyddol Tsiec, hynod o haearnaidd ei hideoleg, does dim llawer o sylwebaeth a fyddai'n cynnig golwg amgen ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Wcráin. Mae'r sawl sydd am gael persbectif gwahanol ar y mater yn gorfod troi at gyfryngau ar-lein megis y gwefannau gwrthsefydliadol *Deník Referendum* a *Blisty.cz*. Treiddgar iawn yw erthygl Vojtěch Srnka yn *Deník Referendum* sy'n amlygu dicotomiau cynhenid sydd wedi meddiannu'r drafodaeth ar yr Wcráin yn y cyfryngau Tsiec. Ei brif

bwynt yw bod dwy ochr y ddadl yn difrïo ei gilydd” Zn z b, ond, mae'r naill yn galw'r llall yn gudd-weithredwyr Washington neu Mosco. Digon cywir yw'r dadansoddiad hwn os cofiwn ni am y Gweinidog Amddiffyniad dan Iach gwleidyddion a newyddiadurwyr ceidwadol. Ac ar ochr chwith eithaf y sbectwm? Pan bwysodd Prif Ysgrifennydd NATO, Anders Fogh Rasmussen, ar y Llywodraeth Dsiec i gynyddu'r gwariant ar amddiffyniad, gallwn ni ddarllen fod NATO am i ni noddi anturiaethau milwrol yr Unol Daleithiau yn Ewrop. Oherwydd y sylwebaeth wrthgyferbyniol hon, orlawn fel y mae hi o ystrydebau garw, mae newyddiadurwyr y cyfryngau gwrth sefydliadol ac annibynnol o bleidiau gwleidyddol fel chwa o awyr iach, yn bwrw golwg syber a gweddol ddiuedd ar y gwahanol ddigwyddiadau yn argyfwng yr Wcráin. Un o'r sylwebyddion hynny yw Iлона Švihlíková. Mae hi'n cyfrannu'n gyson i *Blisty.cz* neu yn llawn *Britské Listy*, cyfnodolyn ar-lein sydd am herio ystrydebau'r cyfryngau Tsiec ac sy'n cael ei ysbrydoli gan bapurau newydd Saesneg megis y *Guardian*. Yn fis yn ôl, dadleuodd Švihlíková yn argyhoeddiadol iawn fod yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y Wcráin yn adlewyrchu gwrthdaro rhwng dau floc pŵer sydd wrthi'n chwilio am eu safle ar y llwyfan rhyngwladol - yr Undeb Ewropeaidd a Ffederasiwn Rwsia. Canolbwyntiodd hi ar lwybr Rwsia wrth iddi geisio gwrthsefyll hegemoni'r Unol Daleithiau ac adeiladu seiliau newydd i'w dylanwad rhyngwladol. Tynnodd hi sylw at y prosiect a gyflwynodd Vladimir Putin ar ei ymweliad â'r Almaen yn 2010. Pryd hynny, cynigiodd Putin fel y Prif Weinidog bartneriaeth economaidd rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Rwsia a allai fod yn gysail i gydweithio newydd hirdymor ac yn wrthbwynt i rym di-her yr Unol Daleithiau. Ac Ewrop yn straffaglu â sgil effeithiau'r enciliad economaidd bryd hynny, mae'n amlwg nad oedd Vladimir Putin wedi amseru ei gynnig yn ddelfrydol. Fe'i gwrthododd Angela Merkel yn ddibetrus. Diddorol yw sylwi, serch hynny, fod Angela Merkel ar y llaw arall yn rhoi cefnogaeth ddiamwys i'r cytundeb TTIP (*Transatlantic Trade and Investment Partnership*) â'r Unol Daleithiau a bod cynnig Rwsia i greu'r Undeb Eiriesid, o bosib', yn ganlyniad i amharodrwydd Ewrop i roi unrhyw ystyriaeth fanylach i gynnig Vladimir Putin o'r flwyddyn 2010. Wrth gwrs, cynnig i ail-greu'r Undeb Sofietaidd yw prosiect yr Undeb Ewro-Asiaidd, chwedl Hilary Clinton. Ond a oes opsiynau eraill gan Rwsia yn wyneb ymarweddiad negyddol Ewrop tuag ati hi? Mae'n wir fod polisiau mewnol a thramor Vladimir Putin yn ddadleuol dros ben ond teg yw gofyn pam mae Ewrop yn ei wrthod e tra'n cofleidio cynghrair â'r Unol Daleithiau sy'n bell o fod heb gamweddau dybryd ar y sin byd-eang. Ai teyrngarwch i'w ffrind mawr trawsatlantig, seicoleg ofidus y Rhyfel Oer neu awydd ymerodraethol i gystadlu â'i gymydog dwyreiniol mwyaf sy'n gwneud i'r Undeb Ewropeaidd beidio â chwestiynu cyfreithlondeb y gyfundrefn wleidyddol newydd yn Kiev?

Efallai mai cyfuniad o'r tri sydd wrth wraidd y cytundeb cysylltiadol sydd newydd gael ei lofnodi gan Petro Poroshenko a chynrychiolwyr yr Undeb er gwaethaf llais gwrthwynebus Rwsia. Pan dw i'n meddwl am y broses hirfaith a chymhleth a ddaeth â'r Weriniaeth Dsiiec a gwledydd eraill i mewn i'r Undeb Ewropeaidd, allai ddim ond synnu fod yr Undeb wedi rhuthro i agor ei ddrysau i wlad sydd mewn rhyfel cartref, beth bynnag fo achosion gwirioneddol y gwrthdaro rhwng gorllewin a dwyrain yr Wcráin. Fel rhywun sydd o blaid y prosiect Ewropeaidd ers i fi ddechrau ymddiddori mewn materion cyhoeddus, dw i'n mawr obeithio nad maes cad arbrofol rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Rwsia yw'r Wcráin mewn gwirionedd. Gobeithio'n fawr nad yw'r argyfwng hwn yn fan cychwyn i ryfel oer newydd a allai fagu tymheredd annioddefol yn arswydus o gyflym. Does yna fawr o amheuaeth nad yw Rwsia'n dilyn ei chynneddfau ymerodraethol yn yr Wcráin. Ond mae arna i ofn rhag Ewrop sy'n creu gwladwriaethau clustog ar ei ffiniau ac efallai'n aildeffro i'w chynneddfau ymerodraethol hithau.